# GRIFFITHS, MORRIS (fl. 1766-1805), cynghorwr Methodistaidd, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ac emynydd

**Enw:** Morris Griffiths
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynghorwr Methodistaidd, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ac emynydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Cawn ef yn gynghorwr gyda'r Methodistiaid ym Mhrendergast, ger Hwlffordd, Sir Benfro, yn 1766; ' lay preacher ' oedd pan alwodd yn Nhrefeca yn 1776. Bedyddiwyd ef yn 1779 yn Llangloffan, ac urddwyd ef yn un o weinidogion yr eglwys honno yn 1788. Bu farw yn 1805. Cymysgir ef yn aml â Morris Griffiths, Trefgarn. Cyhoeddodd *Marwnad ... John Davies, Pregethwr yr Efengylyn Sir Benbro*, c. 1765; *Defnyddiol Hymnau i Breswylwyr y Graig* (Trefeca, 1779); *Llythyr Caredig*, 1786; *Egwyddorion Difinyddiaeth*, 1789 - math o gyffes ffydd a phennill ar ddiwedd pob pwnc ynghyda thri emyn; a *Dammeg, mewn Dull o Ymddiddan rhwng Credadyn a Mr. Ewyllys-Rhydd a Satan* (Trefeca, d.d.). Yn ôl ' Gwilym Lleyn ' cyhoeddodd hefyd *Dull o Ymddiddan rhwng Gweinidog yr Efengyl, a Disgybl ieuanc dan holiad*, yn 1784. Ni bu ei emynau erioed mewn bri.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


D. Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 188, 192

Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (1778). (arg. 1885) 537-8, 540

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, viii, 68-9; xviii, 29-30, 73-7; xxxiii, 47

*Y Cymmrodor*, xlv, 38

Gweler ymhellach *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd* 1952, ar y ddau Morris Griffiths hyn


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733973

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953


**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu